Wise Cymru | Wise Wales

Cylchlythyr Ionawr 2018

Mae Wise Cymru wedi bod yn brysur yn y cyfnod cyn y Nadolig gydag amryw o brosiectau a digwyddiadau.

Y Talwrn

Cynhaliwyd y Talwrn yn Abertawe fis Awst diwethaf, ac roedd yn gyfle i swyddogion llawn-amser o undebau myfyrwyr mewn sefydliadau AU yng Nghymru i ddod at ei gilydd ar gyfer digwyddiad cyntaf y flwyddyn UCM Cymru. Roedd yn gyfle gwych i gwrdd â swyddogion newydd eu hethol ac esbonio diben ac amcanion Wise Cymru.

Pecyn Cymorth Canllawiau Partneriaeth

Mae chwe sefydliad wedi llwyddo cwblhau'r pecyn cymorth ar gyfer Canllawiau Partneriaeth; mae'r canlyniadau wedi cael eu casglu ynghyd a lluniwyd crynodeb. Mae'r rhain ynghlwm.

Roedd y duedd gyffredinol yn dangos bod systemau cynrychiolaeth cwrs yn ddatblygedig ar draws y sector, a'u bod yn gweithio'n effeithiol i hyrwyddo diwylliant o bartneriaeth ystyrlon.

Serch hynny, roedd ymgysylltiad â chynulleidfa ehangach o fyfyrwyr yn brin, yn ogystal â sefydlu'r syniad o bartneriaeth ar draws y sefydliad. Caiff yr heriau hyn sylw penodol o fewn themâu Wise Cymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Adnoddau AB

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu chwech o adnoddau newydd i'w dosbarthu mewn sefydliadau addysg bellach er mwyn eu helpu i ddatblygu amrediad o fentrau. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, cyfathrebu a brandio, a strategaethau ymgysylltu. Bydd y rhain ar gael i staff AB ym mis Mawrth.

January 2018 Newsletter

Wise Wales have been busy over the run-up to Christmas with a number of projects and events.

Y Talwrn

Held in Swansea last August, Y Talwrn brings together full-time officers from Welsh HE students' unions for NUS Wales' first event of the academic year. It was a great opportunity to meet the newly elected officers and explain Wise Wales' purpose and aims.

HE Pathways to Partnership Toolkit

Six institutions have successfully completed filling in the Pathways to Partnership toolkit, and the results have been collated and summarised. These are attached.

The general trend found that course representative systems are well developed across the sector are and working effectively to promote a culture of meaningful partnership.

Greater engagement with a wider student audience was lacking, however, as well as instilling the idea of partnership throughout the institution. These challenges will be examined within Wise Wales' themes for the coming year.

FE Resources

We are currently developing six new resources to disseminate to further education institutions in order to help them develop a range of initiatives. They cover a range of subjects, including Student-Led Teaching Awards, communication and branding, and engagement strategies. These will be available to FE staff in March.

Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs

Bydd Wise yn cynnal y gynhadledd flynyddol ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs yn Aberystwyth ar 7 Chwefror.

Mae'n gyfle i hyfforddi a galluogi carfan eleni o gynrychiolwyr cwrs, yn ogystal â datblygu rôl a gwerth cynrychiolwyr cwrs a systemau cynrychiolaeth cyrsiau ar draws y sefydliad. Mae cofrestru ar agor, felly ymunwch yma nawr!

Byddwn yn rhedeg sawl gweithdy, a byddwn yn cadarnhau'r siaradwyr yn ystod yr wythnosau nesaf. Os oes unrhyw bwnc rydych chi am siarad arno, cysylltwch â ni - rydyn ni'n croesawu syniadau newydd.

Drannoeth y gynhadledd, bydd UCM Cymru'n cynnal rhwydwaith y Prif Weithredwyr, hefyd yn Aberystwyth. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Riyadh Issa, Rheolwr Ymgysylltu â Pholisi UCM Cymru, am fwy o wybodaeth.

Ymweliadau Wise

Gan deithio hyd a lled Cymru, rydym wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld ag undebau myfyrwyr a thimau llais dysgwyr o Gaerdydd i Gambria. Mae wedi bod yn gyfle gwerthfawr i gasglu adborth a chynnig cefnogaeth.

Ynghyd â'r ymchwil hwn, byddwn yn lansio arolwg sydd â'r nod o gasglu gwybodaeth ynglŷn â natur partneriaeth rhwng sefydliadau ac undebau myfyrwyr/llais dysgwyr. Byddwn yn rhannu hwn â staff sefydliadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Couse Representative Conference

On February 7th 2018, Wise will be hosting the annual Course Rep Conference, taking place in Aberystwyth.

It is an opportunity to train and equip this year's cohort of course representatives, and to develop the role and value of course reps and course rep systems across the institution. Registration is open, so sign up here now!

We will be running several workshops, and speakers will be confirmed in the coming weeks. If there is a subject on which you would like to speak, get in contact – we welcome new ideas.

The day after the conference, NUS Wales are hosting a CEO network, also in Aberystwyth. If you are interested, contact Riyadh Issa, NUS Wales' Policy Engagement Manager, for more information.

Wise Visits

Travelling across Wales, we have been lucky enough to visit students' unions and learner voice teams from Cardiff to Cambria. It has been a valuable chance to gather feedback and offer support.

Alongside this research, we are launching a survey aiming to gather information about the nature of partnership between institutions and students' unions/learner voice. This will be shared with institutional staff in the coming weeks.

@Wise_Cymru
@Wise_wales

Wise Cymru: Cyfeiriad Newydd

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio, penderfynwyd y byddai Wise Cymru'n mynd i gyfeiriad newydd yn y dyfodol. Bydd ein hamcanion yn seiliedig ar themâu, gydag ymchwil wrth galon ein strategaeth. Mae'r rhain yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, felly gallwch ddisgwyl mwy o newyddion yn ystod y misoedd nesaf.

Wise Wales: A New Direction

After our last Steering Group meeting, it was decided that Wise Wales will be taking a new direction in the future. Our aims will be theme-based, with research at the heart of our strategy. This is currently being developed, so expect more news over the coming months.

Ymgynghorydd Newydd

Ymunodd Charlotte West â thîm Wise Cymru, yn dilyn ymadawiad Daniel Roberts. Mae Charlotte yn wreiddiol o Hampshire, ond symudodd i Abertawe i astudio ar gyfer ei gradd yn 2011. Ar ôl graddio, ymunodd â thîm Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe fel Cydlynydd Cymdeithasau a Gweithgareddau cyn dechrau yn ei rôl gyda Wise.

New Consultant

Charlotte West joined the Wise Wales team after the departure of Daniel Roberts. Charlotte is originally from Hampshire, but moved to Swansea to study for her degree in 2011. After graduating, she joined the team at Swansea University Students' Union as Societies and Activities Coordinator before starting her role with Wise.

Yn olaf, rydym yn gobeithio i chi fwynhau'r gwyliau, a dymunwn bob llwyddiant i chi yn y tymor newydd!

Finally, we hope you had a wonderful break and wish you a happy new term!

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant

jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant

charlotte.west@nus-wales.org.uk